

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

Adroddiad yr Iaith Gymraeg 2018-19



WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU



Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English. Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

**Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ**

Adroddiad manwl

Cyflwyniad

- 1 Mae'r adroddiad blynyddol hwn ar yr iaith Gymraeg yn amlinellu'r gwaith rydym wedi ei wneud i hybu'r iaith o fewn Swyddfa Archwilio Cymru yn ystod 2018-19 ac yn rhoi cipolwg o'n sefyllfa bresennol.
- 2 Gwnaethom dderbyn ein [hysbysiadau cydymffurfio o ran Safonau'r Gymraeg](#) (y safonau) ym mis Gorffennaf 2016. Y dyddiad gosod ar gyfer llawer ohonynt oedd mis Ionawr 2017; daeth 14 safon arall i rym yn ystod 2017-18 ac wyth yn 2018-19.
- 3 Fel rhan o'r safonau, mae gofyniad arnom i gyhoeddi adroddiad blynyddol ar sut rydym wedi cydymffurfio â safonau penodol ac yn gyffredinol yn ystod y flwyddyn ariannol flaenorol. Er mai prif ddiben yr adroddiad hwn yw asesu cydymffurfiaeth, mae hefyd yn gyfle i ni fyfyrto ar yr hyn rydym wedi'i wneud i hybu'r defnydd a'r ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn flaenorol ac i nodi sut gallwn wella ymhellach.
- 4 Derbyniodd Swyddfa Archwilio Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru hysbysiadau cydymffurfio ar wahân. Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn adrodd ar ein perfformiad o ran y ddwy set o safonau, a bydd yn cael ei rannu drwy blatfformau ein cyfryngau cymdeithasol yn ogystal â'i roi ar ein gwefan ac ym mhob un o'n swyddfeydd.
- 5 Rydym yn amlinellu ein [trefniadau ar gyfer cydymffurfio â'r safonau ar ein gwefan](#). Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cyflogi Swyddog Gymraeg amser llawn sy'n gyfrifol am reoli'r safonau o ddydd i ddydd a hybu'r Gymraeg yn fewnol. Mae Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yn gyfrifol am drosolwg strategol a rheolaeth gorfforaethol materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg.
- 6 Rydym wedi cyflawni amrywiaeth eang o weithgareddau yn ystod y flwyddyn flaenorol i hybu'r Gymraeg o fewn Swyddfa Archwilio Cymru. Gweler manylion y rhain isod. Gellir gwneud mwy, ac rydym yn bwriadu adeiladu ar waith y flwyddyn flaenorol. Bydd Strategaeth y Gymraeg yn allweddol i hyn, sef strategaeth a ddatblygwyd yn ystod y flwyddyn a fydd yn dod i rym yn ystod gwanwyn 2019. Mae'n nodi ein sefyllfa bresennol, ein huchelgeisiau, a'n camau gweithredu arfaethedig i wireddu'r uchelgeisiau hynny.

Cyfathrebu'r safonau â'r staff

- 7 Mae'n bwysig cyfathrebu gofynion y safonau â'r staff er mwyn sicrhau eu bod yn deall y ddarpariaeth Gymraeg sydd ar gael iddynt – gan gynnwys cyfleoedd dysgu, technoleg a deunydd adnoddau dynol. Mae hyn yn bwysig hefyd i sicrhau bod y staff yn deall eu cyfrifoldebau o dan y safonau – er enghraifft, wrth ateb galwadau ffôn allanol neu ohebiaeth.
- 8 Pan fydd staff newydd yn cyrraedd y sefydliad, maent yn derbyn sesiwn ymsefydlu bwrpasol lle y cânt eu cyflwyno i'r safonau o ran eu gwaith a'u cyflogaeth gyda ni. Rhaid i ddechreuwyr newydd di-Gymraeg hefyd gwblhau cwrs Cymraeg Gwaith ar-lein y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, lle y maent yn dysgu ychydig o Gymraeg sylfaenol ar gyfer y gweithle ac yn ennyn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg. Gellir gweld rhagor o wybodaeth am hyn ym [mharagraff 18](#).
- 9 Rydym wedi cyflwyno llawer o offer a chanllawiau i'r staff ar y safonau sy'n effeithio ar y ffordd y maent yn gweithio. Er enghraifft, rydym yn darparu canllawiau a thempledi ar gyfer llofnodion e-bost a negeseuon e-bost 'allan o'r swyddfa', gan gynnwys rhestr gynhwysfawr o deitlau swyddi. Mae cyfres o dechnolegau Cymraeg hefyd ar gael i'r staff yn ôl y gofyn, sy'n cynnwys 'Cysill' a 'Cysgair', gwiriwr sillafu Cymraeg Microsoft Office, a 'To Bach'.
- 10 Mae ein polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn amlinellu'r safonau perthnasol sy'n effeithio ar gyfrifoldebau dyddiol ein staff. Mae'r rhain yn cynnwys ateb galwadau ffôn ac ymateb i ohebiaeth, parchu dewisiadau iaith ein cyrff archwilio a'r cyhoedd, a'r pethau sydd angen eu hystyried wrth arddangos posteri ac arwyddion o amgylch ein swyddfeydd. Rydym hefyd wedi ychwanegu bod yn rhaid i negeseuon e-bost i'r holl staff fod yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg wedi'i gosod lle bydd yn debygol o gael ei darllen yn gyntaf. Mae'r polisi hefyd yn amlinellu'r hawliau newydd sydd gan staff o dan y safonau, fel argaeledd technolegau Cymraeg, eu mynediad i hyfforddiant Cymraeg, a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae hefyd yn amlygu eu hawliau i gael dogfennau adnoddau dynol, yn ogystal â chyfarfodydd disgyblu a chwyno, yn Gymraeg.
- 11 Gellir dod o hyd i bolisi'r Gymraeg yn hawdd ar ein mewnrwyd i staff ei ddarllen, a chafodd ei hysbysebu drwy gydol y flwyddyn gan ddefnyddio negeseuon e-bost i'r holl staff gan gyfarwyddwyr a thrwy erthyglau newyddion ar y fewnrwyd. Bydd y polisi hwn yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau ym mis Awst 2020.

- 12 Rydym wedi bod yn atgoffa'r staff drwy gydol y flwyddyn, drwy sesiynau ymwybyddiaeth, sesiynau ymsefydlu a negeseuon e-bost i'r holl staff gan gyfarwyddwyr, o'r angen i ateb galwadau gyda chyfarchiad Cymraeg. Gwnaethom barhau â'n hymgyrch 'Bore da / Prynawn da', gyda phosteri a sgriniau electronig yn ein swyddfeydd, a sesiynau gyda staff i ymarfer a'u hatgoffa i ateb galwadau gyda'r brawddegau Cymraeg priodol.
- 13 Er mwyn annog staff i gyfathrebu â'i gilydd yn Gymraeg dros e-bost, rydym wedi defnyddio swyddogaeth MailTip Outlook i hysbysu'r anfonwr yn awtomatig os yw'r derbynnydd 'yn fodlon cyfathrebu yn Gymraeg' neu os yw'n dysgu, ynghyd â syniad o lefel ei allu. Mae hyn wedi cynyddu gwybodaeth staff ynghylch pwy arall sy'n gallu siarad Cymraeg, ac rydym wedi derbyn adborth anecdotaidd ei fod wedi annog ac atgoffa'r staff i ymarfer eu Cymraeg ysgrifenedig gyda chydweithwyr, yn enwedig ymhlith dysgwyr.

Recriwtio

- 14 Wrth recriwtio o fewn timau archwilio, mae rheolwyr recriwtio'n adolygu galluoedd Cymraeg y tîm cyfan ac yn ystyried canran y siaradwyr Cymraeg sydd eisoes o fewn y tîm, a'r ymatebion gan gyrff i'n harolwg dewis iaith bob tair blynedd. Fel ag yr oedd ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2018-19, rydym yn cynnal y fersiwn ddiweddaraf o'r arolwg ac yn annog y sefydliadau prin hynny nad ydynt wedi'i gwblhau eto i wneud hynny.
- 15 Pan fydd swydd newydd neu wag yn codi, rhaid i'r rheolwr recriwtio lenwi achos busnes a'i ddychwelyd i'r adran adnoddau dynol. Mae adran o fewn yr achos busnes yn gofyn am y sgiliau Cymraeg gofynnol ar gyfer y rôl honno, ar sail ein [Matrics Cymraeg](#), sydd wedi'i seilio ar lefelau'r Ganolfan Dysgu Cymraeg. Os oes rheolwr yn dymuno newid gofynion Cymraeg swydd wag, rhaid iddo ddarparu cyfiawnhad dros wneud unrhyw newid.
- 16 Yn ystod 2018-19, gwnaethom hysbysebu 50 o swyddi newydd neu wag, gan recriwtio'n fewnol ac yn allanol ar draws 23 o ymgyrchoedd ar wahân. Cafodd dwy o'r swyddi hyn eu hysbysebu fel rhai lle roedd y Gymraeg yn 'hanfodol', a chafodd 48 o swyddi eraill eu hysbysebu fel rhai lle roedd y Gymraeg yn 'ddymunol'. Ni wnaethom lwyddo i recriwtio siaradwr Cymraeg ar gyfer yr un o'r rolau lle roedd Cymraeg yn hanfodol, oherwydd ni wnaeth unrhyw siaradwyr Cymraeg â'r sgiliau gofynnol ymgeisio. Wedi hyn, gwnaethom ailhysbysebu un o'r swyddi lle roedd y Gymraeg yn ddymunol, ac ni chafodd y rôl arall ei hailhysbysebu.

Sgiliau a hyfforddiant Cymraeg

- 17 Amlinellir sgiliau Cymraeg staff Swyddfa Archwilio Cymru ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2018-19 yn **Nhabl 1**. Ers 2014-15, rydym wedi gweld saith siaradwr Cymraeg arall ar lefel Uwch neu Rugl, sy'n golygu bod 12% o'r sefydliad yn siaradwyr Cymraeg. Caiff sgiliau Cymraeg ein staff eu hunanwerthuso a'u cofnodi ar borth hunanwasanaeth y cyflogeion.

Tabl 1: Sgiliau Cymraeg holl staff Swyddfa Archwilio Cymru

Nifer y staff yn Swyddfa Archwilio Cymru sydd ar lefel ymwybyddiaeth, mynediad, sylfaen, canolradd, uwch neu rugl o ran gwranddo, darllen, siarad ac ysgrifennu Cymraeg

	Gwranddo	Darllen	Siarad	Ysgrifennu
0 – Ymwybyddiaeth	207	211	211	212
1 – Mynediad	6	5	7	9
2 – Sylfaen	10	7	5	4
3 – Canolradd	8	8	10	9
4 – Uwch	11	13	3	5
5 – Rhugl	22	20	28	25
Cyfanswm	264	264	264	264

- 18 Yn ystod 2018-19, gwnaeth cyfanswm o 39 aelod o staff gymryd rhan mewn sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg a/neu hyfforddiant dysgu Cymraeg, fel y dangosir yn **Nhabl 2**. Mae'r rhain yn cynnwys yr aelodau newydd o staff a oedd yn gorfod cwblhau cwrs 'Croeso' Dysgu Cymraeg ar-lein y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol fel rhan o'u cyfnod ymsefydlu.

Tabl 2: Hyfforddiant Cymraeg

Yr hyfforddiant Cymraeg a ddarparwyd ar gyfer staff yn ystod 2018-19

	Dyddiadau	Cynrychiolwyr	Cyfanswm yr oriau dysgu
Sesiwn ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ar adeg ymsefydlu	Dyddiadau amrywiol Ebrill 2018 – Mawrth 2019	28	14
Cwrs 'Croeso' Cymraeg Gwaith ar-lein	Ebrill 2018 – Mawrth 2019	36 22 wedi cwblhau	248 o oriau wedi'u cwblhau
Dosbarthiadau wythnosol	Medi 2017 – Mehefin 2018	3	180
	Medi 2018 – Mehefin 2019	1	60

- 19 Rydym wedi edrych ar gofrestru staff ar gyrsiau eraill i'r rhai y defnyddiwyd gennym yn flaenorol. Mae un dysgwr wedi dechrau cwrs Say Something in Welsh ym mis Mawrth ac wedi rhoi adborth cadarnhaol arno, felly byddwn yn edrych ar hyrwyddo'r dull hwnnw ymhellach i'r rhai hynny sy'n dymuno dysgu Cymraeg y tu allan i ddosbarth.
- 20 Er mwyn cydnabod yr ymroddiad sydd ei angen ar aelod o staff i ddysgu iaith newydd, ym mis Mehefin 2016 cafodd gweithdrefnau newydd ar ymrwymadau amser ac ariannol eu cytuno gan yr uwch-reolwyr. Caiff y cyrsiau eu talu amdanynt yn llawn gan Swyddfa Archwilio Cymru, a gall staff ddefnyddio hyd at bum diwrnod o'u lwfans hyfforddi dynodedig i ddysgu Cymraeg (gyda'r amser a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei gyfateb ag amser yr unigolyn ei hun). Amlinellodd y weithdrefn hefyd na fyddai angen i unrhyw aelod o staff sydd â gofyniad iaith 'hanfodol' ar gyfer ei rôl gyfateb amser Swyddfa Archwilio Cymru â'i amser ei hun.
- 21 Mae gennym fentrau eraill i annog staff i ymarfer eu Cymraeg. Cynhelir sesiwn amser cinio reolaidd i ganiatáu i staff gael sgysiau yn Gymraeg gyda dysgwyr eraill a siaradwyr rhugl ac i'w helpu i baratoi ar gyfer arholiadau Cymraeg. Mae hefyd yn gyfle i siaradwyr di-Gymraeg fynychu i ofyn am gyfleoedd i ddysgu Cymraeg ac i ymarfer defnyddio brawddegau a geiriau syml. Mae gennym hefyd 'Gair y foment' ar ein sgriniau o amgylch y swyddfeydd, sy'n cynnwys sillafiad ffonetig y geiriau a'u cyfieithiad, fel y dangosir yn **Ffigur 1**.

Ffigur 1: gair y foment

Enghreifftiau o bosteri a osodwyd ar sgriniau o amgylch ein swyddfeydd i amlygu geiriau Cymraeg



Llunio polisïau

- 22 Rydym wedi cynnal asesiadau o'r effaith ar y Gymraeg ar 12 o bolisïau a phenderfyniadau polisi yn ystod y flwyddyn, fel y'u rhestrwyd yn **Nhabl 3**. Rhaid i'r asesiadau effaith hyn gael eu cynnal ar bob polisi newydd a pholisi a adolygir er mwyn sicrhau bod effaith gadarnhaol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a sicrhau nad yw'r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg. Fel y mae'n digwydd, mae'r Swyddog Cymraeg presennol yn aelod o'r Grŵp Buddiant Cydraddoldeb, ac ymgynghorir â'r grŵp hwn ar bob polisi.

Tabl 3: polisiâu a phenderfyniadau polisi

Polisi
Polisi Amser Undebau Llafur
Gweithdrefn ar gyfer Diogelwch Cenedlaethol a Gwiriadau Diogelwch
Polisi Cwynion
Polisi Urddas a Pharch
Polisi Disgyblu
Polisi Hunaniaeth o ran Rhywedd a Pholisi Trawsnewid
Ystyriaethau ar gyfer cael mynediad at ddeunydd sensitif neu bersonol ar y rhyngwyd yn ystod ein gwaith ar gyfer Swyddfa Archwilio Cymru
Canllawiau ar y Menopos
Drafft o'r fframwaith ymddygiadol
Cofnodi amser real
Polisi Cydraddoldeb ac Amrywiaeth
Polisi Teithio a Threuliau Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru

Cwynion

- 23 Yn ystod 2017-18, gwnaethom dderbyn ymholiad gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ynghylch ein canolfan asesu ar gyfer hyfforddedigion archwilio a'r gallu i ymgeiswyr gael eu hasesu yn Gymraeg. Gwnaethom gydnabod bod ein hymwadiad ar ein gwefan yn gamarweiniol ac rydym bellach wedi gwneud y testun yn fwy eglur.

Wales Audit Office

24 Cathedral Road

Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500

Fax: 029 2032 0600

Textphone: 029 2032 0660

We welcome telephone calls in
Welsh and English.

E-mail: info@audit.wales

Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru

24 Heol y Gadeirlan

Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn Testun: 029 2032 0660

Rydym yn croesawu galwadau
ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru